

Lolipops rhew

Mae'r lolipops rhew yma yn hawdd iawn i'w gwneud. Y cyfan sydd angen i chi ei benderfynu yw pa ffrwythau rydych yn eu hoffi orau. Fe allwch chi roi cynnig ar felon dŵr, ffrwyth ciwi, mefus, mafon, banana neu oren.

Cynhwysion:

- Dewis o'ch hoff ffrwythau
- Siwgr mân neu fêl (am felyster)
- Dŵr

Byddwch hefyd angen:

- Peiriant blendio
- Mowldiau lolipop rhew (os nad oes gennych chi fowldiau, gallech chi

YN Y GEGIN - Lolipops rhew

ddefnyddio cwpanau papur bach a gweill bwyta fel ffyn)

Dull:

- Rhowch eich ffrwyth mewn peiriant blendio
- Ychwanegwch fymrym bach o siwgr mân neu lond llwy o fêl i ychwanegu ychydig o felyster
- Ychwanegwch ychydig o ddŵr (un llwy ar y tro) er mwyn caniatáu i'r cymysgedd flendio'n esmwyth ond heb fod yn rhy hylifol
- Ar ôl blendio, rhannwch y cymysgedd rhwng y mowldiau lolipop rhew
- Rhowch nhw yn y rhewgell nes eu bod wedi rhewi'n iawn

AWGRYM GWYCH:

Y ffrwythau gorau yw'r mathau y byddech chi'n eu rhoi mewn smwddi

